# Canllaw i Ysgrifennu'ch Cynnig Ymchwil ar gyfer y Rhaglen Doethur mewn Gweinyddu Busnes

## Trosolwg

Nod y ddogfen hon yw'ch helpu i ystyried, strwythuro a llunio cynnig ymchwil ar gyfer y rhaglen Doethur mewn Gweinyddu Busnes (DBA). Yr hyn sy'n dilyn yw trosolwg o ddiben y cynnig ynghyd â chyngor ar y strwythur a'r cynnwys.

Elfen allweddol o'ch cais yw'r cynnig ymchwil, wrth ochr eich curriculum vitae. Mae angen iddo gyflawni nifer o dasgau y rhoddir rhagor o fanylion amdanynt isod. Fel rhan o'ch cais, mae'n rhaid i'r cynnig ein hysbysu o'r maes/meysydd academaidd y bydd eich ymchwil yn perthyn iddo/iddynt ac yn cyfrannu ato/atynt (megis marchnata, rheoli gweithrediadau, rheoli gofal iechyd, ansawdd, cyfrifoldeb corfforaethol ac ati). Yn ogystal, gan mai doethuriaeth broffesiynol yw'r DBA, dylech hefyd gynnwys datganiad ynghylch effaith ymarferol bosib y gwaith (y broblem rydych yn ceisio ei datrys a pham mae'n bwysig).

Felly mae angen i gynnig ymchwil DBA ddangos bod potensial i wneud cyfraniad i wybodaeth o safbwynt damcaniaethol ac ymarferol. Efallai fod hwn ychydig yn frawychus ar y cam cynnar hwn, ond ni ddisgwylir ichi fod yn arbenigwr; nod y canllaw hwn yw datgyfrinio'r broses o lunio'ch cynnig. Bydd yr wybodaeth a rowch yn eich cynnig ar ffurf dros dro ac amlinellol, a chaiff ei chyflwyno â'r nod o roi mewnwelediad i'r darllenydd i botensial y gwaith ymchwil arfaethedig.

## Diben y Cynnig Ymchwil

Mae nifer o bethau y mae angen i'ch cynnig ymchwil ar gyfer y DBA eu cyflawni, a rhoddir crynodeb o'r rhain yma. Cofiwch ein bod yn deall mai cynigion *arfaethedig* yw'r rhain, ac felly eu bod o leiaf yn dibynnu'n rhannol ar sut y bydd y prosiect yn datblygu. Mae'n gyffredin i brosiectau ymchwil fireinio ac addasu eu ffocws wrth iddynt ddatblygu.

Bydd eich cynnig yn cyflawni'r rolau canlynol:

1. Mae'n rhoi datganiad clir o thema'r gwaith ymchwil (e.e. Rheoli Adnoddau Dynol) a'r cwestiwn dan sylw (Pa ffactorau sy'n amharu ar recriwtio staff ar gyfer cwmnïau Telegyfathrebu yn Nigeria). Beth ydych chi eisiau ei ganfod?
2. Mae'n cynnig trosolwg o'r prif faes (neu'r prif feysydd) y seilir y gwaith ymchwil arno/arnynt. Gwneir hyn drwy nodi manylion llenyddiaeth berthnasol sy'n seiliedig ar ymchwil bresennol.
3. Mae'n nodi'r dulliau tebygol a ddefnyddir i fynd i'r afael â'r cwestiwn ymchwil. Mae'n bwysig eich bod chi'n cynnwys gwybodaeth am sut byddwch yn cael mynediad at y data angenrheidiol. Gydag ymchwil DBA, mae'n debygol mai'ch sefydliad a'ch diwydiant eich hun fydd hwn.
4. Mae'n awgrymu rhai cynigion am gyfraniad posib y gwaith. Ar gyfer yr holl ddoethuriaethau mae hyn yn cynnwys cyfraniad i'n dealltwriaeth ddamcaniaethol. Ar gyfer y DBA dylai hyn hefyd gynnwys awgrymiadau ar gyfer effaith ymarferol bosib y gwaith.
5. Dylai'r cynnig ddangos eich bod yn gallu ysgrifennu'n glir ac yn gryno i gyfleu'ch syniadau. At hynny, dylai ddangos eich bod wedi gwerthuso i ryw raddau eich dewis maes a'ch bod yn gallu meddwl yn feirniadol amdano. Eto, nid ydym yn disgwyl i chi fod ar lefel ddoethurol ar y cam cynnar hwn, ond mae'n bwysig eich bod yn darparu tystiolaeth eich bod wedi mynd y tu hwnt i arwyneb y pwnc.
6. Mae'r cynnig yn rhan o'r broses benderfynu o ran a oes gennym y gallu i oruchwylio'ch maes. Mae'n syniad da edrych ar broffiliau'r staff ar y wefan, yn ogystal â'r wybodaeth am

feysydd ymchwil yr ysgol. Os nad ydych yn sicr, mae'n werth cysylltu â Chyfarwyddwr Rhaglen y DBA.

7. Ar y DBA, cynnig ymchwil ymgeiswyr llwyddiannus fydd sylfaen eu gwaith ar Fodiwl Un y rhaglen. Byddwch yn rhoi cyflwyniad ar eich ymchwil arfaethedig ac yna cynigir arweiniad a chyngor ichi mewn fforwm cefnogol yn ystod gweithdy'r modiwl sy'n para tri diwrnod. Felly, man cychwyn ydyw, nid contract sy'n gyfreithiol-rwymol.

## Strwythuro'ch Cynnig Ymchwil

Ar y cyfan, ni ddylai'r cynnig fod yn hwy na 2500 gair, ac eithrio rhestr gyfeiriadau. Dylai hyn fod yn ddigon i chi roi digon o fanylion am eich ymchwil arfaethedig ond eto aros yn weddol gryno.

Dylid strwythuro'r cynnig ar ffurf yr adrannau canlynol:

<u>Rhagarweiniad a Chwestiwn Ymchwil</u>

Dylai'r rhagarweiniad grynhoi'r gwaith drwy nodi'r prif gwestiwn ymchwil, drwy roi datganiad cryno o'r maes/meysydd damcaniaeth y mae'r cynnig yn gysylltiedig ag ef/nhw a dylai nodi'r cyd-destun ymarferol lle cynhelir yr ymchwil.

Mae'n bosib na fydd y darllenydd yn gyfarwydd â chyd-destun trefniadol ymarferol yr ymchwil, felly'n aml bydd angen rhoi rhywfaint o eglurhad mewn perthynas â hyn. Yn nodweddiadol bydd y cyd-destun yn cynnwys rhai manylion am y sefydliad a'r diwydiant y mae'r ymchwil yn canolbwyntio arnynt. Mae'n bwysig bod y darllenydd yn cael digon o wybodaeth er mwyn gallu gweld bod y cwestiwn ymchwil yn berthnasol ac yn bwysig i'r sefydliad neu'r diwydiant hwnnw.

<u>Trosolwg cryno o'r llenyddiaeth</u>

Diben yr adran hon yw dangos eich bod chi wedi ystyried ym mha faes ymchwil y mae'ch ymchwil arfaethedig. Yna bydd hyn yn rhoi syniad da o ran i ba faes y bydd eich DBA yn ceisio gwneud cyfraniad damcaniaethol ato.

Mae'n rhaid i adolygiad llenyddiaeth llawn gyflawni sawl tasg (yn bennaf rhaid iddo ddangos sut y mae'ch gwaith arfaethedig yn gweddu i faes y pwnc academaidd a llenyddiaeth bresennol). Fodd bynnag, rôl allweddol y cynnig yw rhoi ymdeimlad eglur i'r darllenydd o’r hyn y credwn ein bod yn ei wybod am bwnc penodol hyd yn hyn, a'r dadleuon parhaus posibl neu'r cwestiynau posibl sydd heb eu hateb yn y maes.

Yn strwythurol, mae'n gyffredin i hyn gael ei wneud gan ddefnyddio ymagwedd gronolegol. Yn aml mae'n rhesymegol olrhain datblygiad maes trafod neu ddatblygiad damcaniaethol dros amser. O ble daeth maes penodol? Pryd dechreuodd dadleuon academaidd ac ymchwil ddod i'r amlwg yn eich maes dewisol? Bydd gan hyd yn oed y datblygiadau damcaniaethol arloesol mwyaf diweddar achyddiaeth a gwreiddiau dyfnach.

Yn ddelfrydol dylai'ch adolygiad llenyddiaeth gyrraedd pwynt lle mae'n dangos sut y mae'ch cwestiwn ymchwil yn cyd-fynd â maes y mae dadleuon yn ei gylch, ac o ganlyniad, i ba raddau y gallai'ch ymchwil fod yn bwysig ac yn ddiddorol.

Gwerthfawrogwn y gallai fod yn anodd cyrchu'r holl bapurau a’r llyfrau diweddaraf ar bwnc pan fyddwch yn gweithredu y tu allan i sefydliad academaidd. Cysylltwch â chyfarwyddwr y rhaglen os yw

hyn yn achosi problemau.  Fodd bynnag, yn aml mae modd defnyddio cyfleusterau chwilio megis Google Scholar i gyrchu digon o ddeunydd i greu adolygiad cryno at ddibenion y cynnig.

Dulliau arfaethedig

Dylai'r adran hon ddweud wrthym sut rydych yn bwriadu casglu a dadansoddi'r data er mwyn mynd i'r afael â'ch cwestiwn ymchwil.

Nid ydym yn disgwyl i ymgeiswyr y DBA fod yn arbenigwyr o ran methodoleg a dulliau. Bydd hyfforddiant ar yr athroniaeth sy'n sail i'r ymagweddau methodolegol, yn ogystal â'r offer a'r technegau y mae eu hangen er mwyn casglu a dehongli'r data, yn rhan o'r rhaglen. Efallai yr hoffech ystyried prynu llyfr dulliau ymchwil i'ch helpu gyda hyn, er nad yw hyn yn angenrheidiol. Mae nifer o lyfrau ar gael felly mae pob croeso ichi gysylltu â chyfarwyddwr y rhaglen ar gyfer argymhelliad.

Ar gyfer y cynnig hwn byddem yn disgwyl ichi ddangos eich bod chi wedi ystyried pa fath o ddata y bydd ei angen arnoch er mwyn ateb eich cwestiwn ymchwil, yn ogystal ag asesiad realistig o'ch gallu i gyrchu'r data hwnnw. Bydd cynlluniau uchelgeisiol i gyfweld â phrif swyddogion gweithredol y cwmnïau mawr yn eu sector yn or-optimistaidd i hyd yn oed yr ymgeiswyr mwyaf profiadol! Gofynnwch gwestiynau allweddol i'ch hunain: 'Pa ddata y mae ei angen arnaf i ateb fy nghwestiwn?'; 'Pa ddulliau casglu allai fod yn addas ar gyfer y data hwnnw?' a, 'Sut gallaf gael mynediad at y data hwnnw?'.

Er enghraifft, efallai y byddwch yn penderfynu bod angen ichi gasglu data ansoddol am ganfyddiadau cyflogai o fenter rheoli newid er mwyn ateb eich cwestiwn, neu i gael dealltwriaeth ddyfnach o'r broblem.  Yn naturiol gallai hynny arwain ichi ystyried cyfweliadau wyneb yn wyneb neu grwpiau ffocws fel modd o gasglu data. Yn olaf, efallai y byddwch yn penderfynu eich bod yn gallu ennyn diddordeb cydweithwyr neu gyflogeion yn y diwydiant heb ormod o rwystrau oherwydd eich cysylltiadau a'ch profiad.

Yn yr un modd, mae'n bosib y bydd eich cwestiwn ymchwil arfaethedig yn awgrymu bod angen cael data meintiol. Yn yr achos hwnnw, yr un cwestiynau fydd yn berthnasol, hynny yw, pa ddull fyddai orau er mwyn cael gafael ar y data hwnnw a sut gallaf sicrhau fy mod i'n cael mynediad ato?

Yn aml bydd rhai prosiectau'n cyfuno dulliau gwahanol o gasglu a dadansoddi data er mwyn taflu goleuni ar gwestiwn mewn gwahanol ffyrdd. Gellir defnyddio cyfres o ddulliau gwahanol.  Er enghraifft, efallai y cynhelir cyfweliadau archwiliadol cychwynnol i ddeall cwmpas y broblem ac yna dilynir y rhain gan holiaduron sy'n seiliedig ar lefel uwch o hyder yn y dirwedd o ganlyniad i'r cam ymchwil cychwynnol.

Eto, dylid pwysleisio nad ydym yn disgwyl i chi fod yn arbenigwyr. Mae amrywiaeth enfawr o ddulliau ar gael inni, ac nid yw'n fwriad gennym fod yn gyfyngol drwy gynnig yr enghreifftiau cymharol syml hyn. Y prif beth y mae angen i'ch cynnig ei ddangos yw eich bod wedi ystyried pa ddata y bydd ei angen er mwyn ichi fynd i'r afael â'ch cwestiwn a sut y byddwch yn dod o hyd i'r data hwnnw.

Felly dylech sicrhau eich bod yn cynnwys ychydig o frawddegau am y bobl/busnesau rydych yn gobeithio y byddant yn cyfranogi a sut y byddwch yn cael mynediad atynt.

Yn olaf, dylech ddefnyddio'r adran hon o'r cynnig i ddatgan a allai fod gan yr ymchwil oblygiadau moesegol. Yn gyffredinol mae'r rhain yn cynnwys materion megis cyfrinachedd, cydsyniad gwybodus, yr hawl i dynnu'n ôl ac yn y blaen. Fodd bynnag, cofiwch gysylltu â ni os oes modd inni helpu.

Datganiad o'r cyfraniad arfaethedig i wybodaeth

Gellid dadlau mai'r adran derfynol yw'r rhan fwyaf amhenodol o'r cynnig. Mae'n glir na fyddwch yn gwybod ar y cam hwn sut yn union y bydd yn cyfrannu at ddatblygiad damcaniaethol neu ymarfer sefydliadol.

Fodd bynnag, dylai fod yn bosib ichi gynnig barn wybodus ynghylch rhai o ganlyniadau posib eich ymchwil. Mae'n gyffredin i gyfraniadau gael eu rhannu'n wybodaeth ddamcaniaethol, gwybodaeth ymarferol a gwybodaeth fethodolegol. Prin yw'r olaf o'r tri felly byddwn yn canolbwyntio ar y ddau gyntaf.

Bydd adran gychwynnol y cynnig wedi darparu trosolwg o'r llenyddiaeth berthnasol a fydd yn sail i'r ymchwil. Byddwch wedi cynnig syniad o sut mae'r maes hwn wedi datblygu, yn ogystal â dweud rhywbeth am y prif ddamcaniaethau, y prif fodelau a'r prif fframweithiau yn y maes. Felly bydd hyn yn caniatáu ichi fyfyrio ynghylch gallu eich ymchwil i atgyfnerthu neu herio neu ymestyn ein dealltwriaeth o ddamcaniaeth neu fodel penodol.

At ddibenion cyfraniad i ymarfer, byddwch wedi nodi cyd-destun eich ymchwil yn y rhagarweiniad, gan ei gwneud yn glir ba broblem neu fater sy'n gweithredu fel sail i'ch cwestiwn ymchwil. Yn yr un modd, bydd hyn yn caniatáu ichi awgrymu dros dro fod gan eich ymchwil y potensial o leiaf i wella ymarfer sefydliadol neu ddiwydiannol, mewn ffyrdd sy'n perthyn i'r maes neu'r broblem rydych wedi'i nodi.

Sylwer na fydd yn rhaid ichi lynu wrth y rhain; deallir mai cynnig yn unig sydd dan sylw. Fodd bynnag, er bod angen iddynt gael eu cynllunio'n ofalus, mae rhaglenni ymchwil yn tueddu i esblygu a chael eu mireinio wrth iddynt ddatblygu. Mae'r DBA yn cynnig ymagwedd strwythuredig at arwain yr esblygiad hwnnw, wrth ochr tîm goruchwylio.

Rhestr Gyfeiriadau

Darparwch restr gyfeiriadau yn nhrefn yr wyddor o'r holl lenyddiaeth, gwefannau, adroddiadau ac ati rydych wedi'u dyfynnu yn y cynnig.

## Awgrymiadau i gloi

Pan fyddwch yn ysgrifennu'ch cynnig, ceisiwch sicrhau ei fod yn eglur ac yn ddarllenadwy. Nid oes angen ichi ddefnyddio iaith a therminoleg sy'n rhy academaidd - mae gennym ddiddordeb yn eich barn a'ch dealltwriaeth o'ch dewis faes. Os oes angen i chi ddefnyddio termau a byrfoddau technegol ac ati o'ch cyd-destun eich hun, yna gallai fod yn ddefnyddiol darparu esboniad ar gyfer pobl nad ydynt yn arbenigo yn y maes.

Wrth ichi ddechrau meddwl am eich pwnc, ac yn benodol wrth ichi ddechrau darllen, gallwch ddechrau drafftio'ch cynnig. Mae pawb yn ysgrifennu'n wahanol, ond mae bron bob amser yn ymarfer defnyddiol i'ch helpu i ddechrau mireinio'r ffordd rydych chi'n meddwl.

Yn olaf, mae pob croeso ichi gysylltu â ni i gael arweiniad. Bwriedir i'r broses cyflwyno cais am y DBA fod yn gefnogol.